# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Y Llys

Dyddiad yr arolygiad: 16/03/2026

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle mae perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn cefnogi ymdeimlad cryf o barch. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn gryf, gyda staff yn modelu'r iaith yn fedrus. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i gyfathrebu'n hyderus ac i ddatblygu medrau cadarn yn y ddwy iaith erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r  rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o deuluoedd incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau'n adeiladol ar draws y meysydd dysgu.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm sy'n cynnig profiadau ysgogol ac yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu at eu brwdfrydedd a'u balchder yn eu dysgu yn effeithiol. Er bod llawer o arferion addysgu medrus, nid yw'r arferion gorau wedi'u gwreiddio'n ddigon cyson ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion yn cael eu herio'n briodol nac yn cael digon o gyfleoedd i ymateb i adborth staff er mwyn gwella eu gwaith.

Mae staff yn darparu cymorth trefnus i ddisgyblion ag ADY, sy'n cefnogi llawer ohonynt i feithrin eu lles ac i wneud cynnydd cyson yn eu medrau. Er bod presenoldeb disgyblion yn briodol, mae'r rhai sy'n absennol yn barhaus yn bryder.

Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad clir i'r ysgol ac yn cefnogi datblygiad staff yn briodol. At ei gilydd, nid ydynt yn gweithredu ar drefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ddigon effeithiol er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau ar draws y meysydd dysgu.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Lleihau cyfraddau'r disgyblion sy'n absennol yn barhaus

A2 Rhannu a chysoni'r arferion addysgu mwyaf effeithiol i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau ar draws y meysydd dysgu

A3 Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella er mwyn canolbwyntio'n gyson ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a safonau disgyblion

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2026